Newyddion Gŵyl Gorawl

Gogledd Cymru Stena Line

Rhifyn 11 - Mai 2011

Cyngerdd Arbennig gyda Faryl Smith

Mae twf yr Ŵyl wedi arwain at greu digwyddiad deuddydd dros benwythnos cyfan 5-6 Tachwedd 2011 a bellach mae'n fwy na dim ond Cystadleuaeth Gorawl ond yn ddathliad o gerddoriaeth sy'n cael ei gynnal yn Venue Cymru yn Llandudno, Gogledd Cymru.

Gyda chymorth noddwr y teitl Stena Line, mae'r trefnwyr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn falch o gyhoeddi y bydd cyngerdd ar y nos Sadwrn gyda **Faryl Smith** a gyrhaeddodd rownd derfynol Britain's Got Talent a'r artistiaid gwadd, y pedwarawd llinynnol **Raven**.

Yn 12 oed, llwyddodd **Faryl Smith** i "ganu ei ffordd i ystafelloedd ffrynt Prydain" ar y rhaglen boblogaidd Britain's Got Talent ac aeth ymlaen i lofnodi'r "ddêl recordio fwyaf erioed i gael ei rhoi i ferch ysgol". Ei halbwm gyntaf *Faryl* "oedd yr albwm début clasurol a werthodd gyflymaf yn hanes y siartiau" ac yn 2009, cafodd ei gwobrwyo'n Berfformiwr Clasurol y Flwyddyn.

Yn ei chefnogi mae **Raven**, Stephanie Benedetti, Natalie Holt, Rachael Lander a Kirsty Mangan, a ffurfiwyd yn 2007. Wedi'u dadrithio gyda rôl gefndirol draddodiadol y pedwarawd llinynnol ac yn rhwystredig gyda'r hen repertoire blinedig, roedd y merched eisiau ail ddehongli alawon clasurol poblogaidd a chwyldroi'r dull o'u perfformio. Dri mis ar ôl ffurfio, roedd **Raven** yn perfformio o flaen miliynau o wylwyr fel y pedwarawd llinynnol preswyl ar raglen Maestro y BBC, yn Neuadd Frenhinol Albert, a'r llynedd aethant cyn belled â Tokyo, Japan. Yn ddiweddar, mae **Raven** wedi mwynhau canmoliaeth eang am eu perfformiadau byw cyson yn cefnogi Ellie Goulding.

Hefyd yn cefnogi **Faryl Smith** mae'r gantores Gymraeg **Lucy Kelly**.

Mae Lucy yn 13 oed ac yn dod o Ynys Môn. Mae wedi bod yn canu ers yn chwech oed. Mae hi wedi perfformio mewn nifer o leoliadau mawreddog fel Neuadd Frenhinol Albert a Chanolfan Mileniwm Cymru ac wedi ymddangos ar amryw o raglenni teledu a radio yng Nghymru ac wedi recordio ei CD cyntaf, *Llais o Baradwys/ Voice From Paradise*.

Mae tocynnau ar gael o swyddfa docynnau Venue Cymru (**01492 872000**) am y prisiau canlynol:

Y Gystadleuaeth - Dydd Sadwrn 5 Tachwedd (10am-5pm) a dydd Sul 6 Tachwedd (12pm-4pm): **Oedolion £5, Plant Iau (dan 18) £2.50**

Y Cyngerdd - Dydd Sadwrn 5 Tachwedd (8pm): **£15***
(* Bydd corau sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth yn cael prynu tocynnau am £10. Byddwch yn cael eich cod gostyngiad ar ôl cwblhau'r broses gais

Gallwch gofrestru rŵan ar gyfer Gŵyl Gorawl Stena Line Gogledd Cymru 2011. Ewch i'n gwefan **www.gwylgorawlgogleddcymru.co.uk** i lawr lwytho ffurflen gais a'r rheolau neu e-bostiwch **northwaleschoralfestival@conwy.gov.uk** neu ffoniwch **01492 575943/8** i ofyn am becyn cais.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Stena Line